

WG35.5.31

COFFADWRIAETH  
O  
FARWOLAETH  
Mr. JOSIAH EVANS,

GWEINIDOG yr EFENGYL,  
Gynt o ABERGWESYN,  
SIR FRECHEINIOG;

Ac yn ddiweddar o  
FAIRFORD,  
SIR GAERLOYW.

Yr hwn a aeth i'w Orphwysfa, *Gorphenaf* 15d,  
1792, yn y 31 o'i Oed.

---

Gan MORGAN REES.

---

*Ni ellir uniawnu'r hyn sydd gam, na chyfrif yr hyn  
sydd ddiffgiol. Preg. i. 15.  
Yn dy holl ffyrdd cydnebydd ef, ac efe a hyfforddia dy  
lwybrau. Diar. iii. 6.*

---

T R E F E C C A:  
ARGRAPHWYD YN Y FLWYDDYX

M,DCC,XCII.

LW 4300  
X205 308312

ESTC C084058



1 **H**ED fy Awen uwch yr Wybren,  
 Pa'm arhosi yma'n hwy?  
 Dydd i ddydd tra'oi ar y ddae'reu,  
 Sydd yn rhoddi i mi glwy:  
 Brodyr anwyl sydd yn diange,  
 Diange er fy ngwaetha maent;  
 Gan yr *Angau* cryf a'i grafange,  
 Sy'n y Wlad, a'i farwol haint.

2 Dywaid i mi'r *Cenau* creulon,  
 Pa'm y t'rawaist un mor hardd!  
 Oedd Blanhigyn yn y winllan,  
 Oedd flodeuyn yn yr ardd;  
 Oedd a'i fryd i wneud daioni,  
 Ac yn llwyddo, llwyddo'r oedd:  
 Ar ei ol mae cri o waeddi,  
 Minnau'n un a godaf floedd!

3 Fwyn *Josiah*'r Brawd ffyddlon,  
 'Dnebum yn fy ymdaith ferr;  
 Gyd ag ef ce's lawer siwrnau,  
 Hyfryd faeth o frafder Mèr;  
 Maeth o faith a manol ddoniau,  
 Codai lesf fel fi i'r lan:  
 Pan agorai'r Ysgrythyrau,  
 Rhoddai fwyd i gryf a gwan.

4 Gan ei Dduw ca'dd bob cynhwysiad,  
 Llygad *Eryr*, wyneb *Dyn*:  
 Gwrol oedd fel *Llew* a'i ruad,  
 Yn erbyn Pechod yn ei 'rym:  
 Fel yr *Ych* llafurus ydoedd,  
 Tynnu wnaeth ei gŵys i ben:  
 Ni lychwinodd ddim o'i wisgoedd,  
 Tra fu yma is y Nen.

5 Ond beth dal sôn am ddawn *Josiah*,  
 Mae yn clwyfo, clwyfo'r Wlad,  
 Cwlyfo draw a chlwyfo yma,  
 Clwyfo mwy yn Nhŷ ei Dad;—

Colled colli un mor galled,  
Doeth i ddirnad cyflwr dyn;  
Sydd yn peri griddfan caled  
Ar ei ol y dyddiau hyn.

6 Ni cheid fawr o Blant Prophwydi,  
'N debyg, tebyg iddo 'fe;  
'R maint ei ddawn fe ddyfgodd weini,  
Gwyddai sut i gadw'i le;  
Hardd-fancteiddrwydd oedd ei ffrwythau,  
Gostyngeiddrwydd oedd ei wisg;  
Ni'm 'falchiodd draw ym *Mryfte*;  
Lle bu dro yn cael ei ddyfg.

7 Fe ymdrechwyd cadw'r *Cymro*,  
Yno'n hwy, i'w wneud yn *Sais*;  
Ond yr Angau glâs a'i Gled dau,  
'Trawodd dan y bummed ais:  
Fe lafuriodd dan ei ddwylo,  
Dwylo oerion Angau' hun;  
Tra fu'n abl er ei glwyfo,  
Mynegodd werth yr Iesu cûn.

8 Trwy *Frecheiniog*, a *Maesyfed*,  
*Mynwy*, a *Morganwg* fwyn,  
*Gwlad yr Haf*, *Caerloyw* hefyd;  
Fe fu yno'n porthi'r wÿn:  
Y mae *Ffairford* yn galaru,  
O waith rhoddi yn y bedd,  
Un mor gyson fu'n mynegu,  
Ffrwythau ffydd, a'i nesol hedd.

9 *Sir Gaerfyrddin*, *Aberteifi*,  
Fe bregethodd gyd â chwi;  
Ac a gododd fywiol Feini,  
Cymmwys i'r ysprydol dÿ:  
*Sir Drefaldwyn*, yn dy gonglau,  
Lleifiodd Udgorn pur i maes,  
'Mhlith y dorf i'yn canu'r Odlau,  
A mynegu rhinwedd Grâs.

10 Ond ni chlywch ym Meusydd *Cymru*,  
Yn y *Gogledd*, yn y *De*,      A 2

- 'Mo'i lais peraidd ef ond hynny;  
 Mae e'n canu mewn gwell lle!  
 'Maes o'r poen a'r cyftudd pwyfig,  
 'Gafodd yma ar ei daith;  
 'Rhwn ddiodefodd ef yn ddidig,  
 Nes myn'd i'r gogoniant maith.
- 11 Os rho'i dro i *Abergwesyn*,  
 Ac i mewn i † *Dyn y Cwm*, † *Tŷ ei Dad*.  
 Pawb a welai 'mhlith y werin,  
 'N cwyno'n brudd a chalon drwm:  
 Er ei fod ef wedi symmyd,  
 I lasurio oddi wrthynt † hwy; † *I Fairford*.  
 Llwyddiant iddo, iddo'n unfryd,  
 Oedd eu gweddi ymhob Plwy.
- 12 O! *Josiah Evans* anwyl!  
 Anwyl was i Frenhin Ne:  
 Pa'm gwnaeth Angau glâs fath orchwyl,  
 Myn'd a'th fath mor glau i dre?  
 Yn dy ieuengŷtyd ti'n gadewaist,  
 Rhag y drygfyd sydd ar ddod:  
 'Rwyf yn cofio'r gair ddywedais;  
 "Nid oes f'eisiau is y rhôd.
- 13 "Yr Arglwydd sydd yn abl codi,  
 "Yn abl codi ngwell i'r gwaith;"  
 Oedd dy brofiad ifel mwyngu,  
 Dyna oedd dy hyfryd iaith:  
 Iaith yn abl torri calon,  
 Calon adamentaidd ddur:  
 Rhaid bod dyn yn rhyw beth creulon,  
 Pan na theimla'th Nefol wir.
- 14 Ond mewn *Niwel* mae rhai yn aros,  
 Caru aros yno maent:  
 Mae eu dydd hwynt fel y cyfnos,  
 Y goleuni a gafânt:—  
 Yfpryd chwilio, 'mosyn manol,  
 Am wirionedd pur y Ne;  
 Nid oes nemmawr yn ymorol,  
 A'r fath orchwyl yn ddible.

- 15 Gwell gan blant y byd ddirifwch,  
 Mewn esmwythder cawdol caeth ;  
 Nac ymofyn am ddedwyddwch,  
 Mewn crefyddol,—ymdrech waith :  
 Nid yw treisio teyrnas nefoedd,  
 Ddim yn boddio cîg a gwaed ;  
 Er mai treiswyr sy'n ei gwleddoedd,  
 Y mae'r wledd i gyd yn rhad !—
- 16 Rhad ! — fydd Anthem faith y teulu,  
 Mewn gogoniant uwch y Sêr ;  
 Pawb yn canu — neb yn crefu  
 Cardod, mwyach gan ei Nêr ;  
 Ond math foli, wedi'u llenwi,  
 'R Ddwyfol nefol anian fyth ;  
 Cariad fel rhyw ffrwd yn berwi,  
 Heb un clafar yn eu plith.
- 17 Gyd â thi *Jofias* dirion,  
 Mae rhyw gwmp'ni hardd eu gwedd ;  
 Yr oe'it yn dechreu gwel'd yn gyson,  
 Dan hiraethu am eu gwledd :  
 Ceisiaist weled “ Parthau gwynfyd,  
 “ 'Mafodd Iesu yn dy law ;  
 “ Ti est gyd â'th hoff Anwlyd,  
 “ I'r enwog le yr ochr draw.”
- 18 Gyd â'th Chwiorydd 'rwy't'n canu,  
 Nid Galarnad † ar eu hôl ; † *Fe ganodd*  
 Ond cyd wledda yn eu cwmp'ni, *Farwnad*  
 Gyd â'r Iesu yn ei gôl : *bynod i un*  
 Byth ni dderfydd o'r gyfeillach, *o honynt.*  
 Ond gwrefogi wneiff y tân ;  
 Pawb yn moli yn gyflymach,  
 Moli beunydd yn y blaen.
- 19 Ymlaen, ymlaen, tra paro oesoedd,  
 Rhif y gwllith, neu'r tywod mân ;  
 Pan y treulio'r rhai'n eu meithdod,  
 Dechreu beunydd fydd y gân :  
 Ni bydd tersyn ar y pleffer,  
 Ni bydd tersyn ar swynhau ;

Ni bydd terfyn ar y neithior :

Tragywyddoldeb i barhau.

20 Mrawd a'm hanwyl ffrynd *Jofiah*,

Pà'm galarai ar dy ôl?

Ond galaru na bawn innau,

'Maes o'r byd a'i wagedd ffol ;

'Maes o'i dwrf, ei drais a'i donnau,

'Nghyd a'i demtasiynau cās,

Sy'n fy rhwydo ar fy siwrnau,

Sy'n fy nghlwyfo ar y maes.

21 Maes y gwaed yw'r byd 'rwy'n trigo,

'N fŵn y rhyfel 'rwyf yn byw ;

Ac fe fydd i'm gael fy nghongcro,

Gan bob gelyn—heb fy Nuw :

Dedwydd, dedwydd ydyw'r cyfiawn,

O flaen drygfyd ânt i'r bedd ;

Mae eu coffadwriaeth raslawn,

I ni'n hyfryd, i ni'n hedd.

22 O na chawn i deimlo'm hyspryd,

Yn ymddadrys maes o'r byd ;

Ac yn troi y Cloion rhydlyd,

Sy'n fy nal i 'nôl o hyd ;

Sy'n fy nal i mewn caethiwed ;

Rhyddid, rhyddid, yw fy llef :

Nid i foddio'r cnawd a'i rwydd-deb,

Ond teyrnafu gyd âg Ef.

23 Gyd âg Ef fy anwyl Iesu,

Mae rhyw *lu* y funud hon ;

Wedi darfod, darfod pechu :

Heb un clwyf o dan eu bron :

Eraill yma ar y rhiwiau

Serth, yn estyn yn y blaen :

Nerth hwy can ê, ar eu siwrnau,

'R gorfod myn'd trwy ddwr a than—

24 Nid rhyw ddau, neu dri, neu bedwar,

O Genhadau Iesu Grist ;

A'n gadawodd yn ddiweddar,

Llawer cwrr o'r byd fydd drift :

*Cymru, Lloegr, ac Americ'*,  
 Sy'n galaru'n uchel iawn ;  
 O waith colli rhai † mor bwyfig,  
 Enwog yn eu dydd a'u dawn.

25 Pa'm mae'r Beirdd a dawn mor fudion,  
 'N' baent yn cyffro'r wlad i gyd ?

Pa'm na bae y gwaredigion,  
 A'u llef *Un* yn llanw'r byd ?  
 A'n i Arglwydd y cynhauaf,  
 Ddanfon etto gyd â brŷs,  
 Weithwyr argyhoeddo'r gwaethaf,  
 'Mhlith y gwreng a gwyr y llŷs.

26 O na chawn i wel'd yng *Ngymru*,  
 Weision Iesu ar bob llaw,  
 Rhif y gwllith yn cael eu dysgu,  
 I bregethu yma a thraw ;  
 I bregethu'r 'Fengyl berffaith,  
 'N' erbyn traddodiadau dyn :  
 N' ellir dysgu neb mewn gwell iaith,  
 Nag yng ngeiriau † Duw ei hun.

27 Mae yn *fuddiol* dysgu ieithoedd,  
 Darllen hanes pob rhyw oes ;  
 Craffu'n fanol ar y lluoedd,  
 Sy'n 'wyllysgar 'godi'r groes ;  
 Ond yn bennaf mae'n angenrhaid,  
 Sylwi ar bortreid Duw ;  
 Er ein galw'n *Hereticiad*,  
 Dilyn Iesu tra fo'm byw.

- “ **G**Wagedd i'r dialodd a'r dig, yw dynion,  
 “ A'u doniau chwyddedig ; *Sal. xxxix. 5.*  
 “ Poeth yw'r drem o'r pethau drig, *1 Cor. iii. 15.*  
 “ Tan enwau : ond Duw'n unig.” *Mat. xix. 17.*  
 “ Dysged, a gwaſged y gwir, ein Henaid,  
 “ O'n hunan chwant anwir ; *Rhuf. ii. 29.*  
 “ I ganfod hawl gwyntyd hir,  
 “ O'r wybodaeth arbedir.” *Ioan iii. 7.*  
*Act. iv. 12.*

† Mae'n hynod fod y dynion mwyaf enwog, o bob enw,  
 wedi marw yn ysbaid y ddwy flynedd diweddat—

‡ Ni ellir dywedyd yn well am bethau Duw, nag yng  
 ngeiriau Duw.

Cynnygiadau i Argraphu,  
Trwy Annogaeth,  
Cylch-grawn Cymraeg  
Yn G W A R T E R A W L;

I gynnwys

Hyfforddiadau-Gwybodaeth, o Ddifnyddiaeth a Llywodraeth. Hanes Crefydd o ran ei Llywyddiant a'i dirywiaeth ymhob rhan o'r byd.—Bywyd a Marwolaeth gwyr enwog, ynghyd a'u doeth ddywediadau.—Drŷch olwg ar y Llyfrau mwyaf neillduol a argraphwyd neu a argrephir yn *Gymraeg*.—Barddoniaeth y gwyr mwyaf prydyddawl.—Llythyrau oddi wrth bob ewyllysiwr da a fo yn chwennych goleuo ei gyd-wladwyr, ynghyd a Newyddion am Ryfeloedd a Heddwch, a phob peth neillduol-arall ar wyneb Daear.—

**M**AE'n ddwys meddwl fod y CYMRO uniaith mor anwybodus o Ddynion a Phethau,— Fe debygid na ddichon un sy'n caru ei Wlad, Iaith ei Fam, a Lles cyffredinol, lai nâ chefnogi'r Gorchwyl.— Mae'r Cyhoeddwyr yn golygu y bydd i'r gwaith ganmol ei hun ymhob Cydwybod dda.—

Weithian os ceir o gylch Mil o Dderbynwyr am Ran bob Cwarter, fe gyhoeddir y Rhan gyntaf *Ionaawr 1792*.  
Pris *Chwêr Cbeiniog*.

Pob Rhan a gynnwys Trugain tu Dalen a phedair, Wythblyg helaeth, ar Bapur da, a Llythyrennau eglur.  
Fe fydd i'r Cyhoeddwyr ddwyn y Gwaith ymlaen yn ddi-duedd; a threfnu Rhedegwyr i'w cyflwyno gyd â brys i bob cwr o *Gymru*.

Dymunir i bawb a chwennychu yn dda i'r gwaith, dderbyn Enwau, a'u hanfon i DREFECCA cyn Mis *Rhagfyr* nesaf.

Pob un a ofalo am grynoi Arian am Ddwfen, a gaiff Un dios ben.

*N. B. Letters with Names, or Materials, for this Work, directed to Mr. Roberts TREVICKA, for the Publishers of the WELCH MAGAZINE, will be duly received.*